| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio | Dyddiad: | 6 Gorffennaf 2017 |
| | | Rhif Union: | 01824 712589 |
| | | ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CYNLLUNIO, DYDD MERCHER, 12 GORFFENNAF 2017** am **9.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT** (Tudalennau 11 - 12)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd fel un i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 13 - 24)

Cadarnhau cywirdeb cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2017 (copi wedi'i atodi).

**CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU (EITEMAU 5 - 9) -**

**5 CAIS RHIF 43/2015/1241/PO – TIR GERLLAW LLYS YNADON, FFORDD FICTORIA, PRESTATYN** (Tudalennau 25 - 42)

Ystyried cais i ddatblygu 0.51 hectar o dir er mwyn codi 3 uned manwerthu ac 20 o unedau preswyl (cais amlinellol gan gadw pob mater yn ôl) ar dir ger Llys Ynadon, Ffordd Fictoria, Prestatyn (copi wedi'i atodi).

**6 CAIS RHIF 45/2017/0335/PO – TIR GERLLAW 21 STANLEY PARK AVENUE, Y RHYL** (Tudalennau 43 - 54)

Ystyried cais i ddatblygu 0.05 ha o dir drwy godi 1 annedd (cais amlinellol gan gynnwys mynediad, gosodiad a graddfa) ar dir ger 21 Stanley Park Avenue, Y Rhyl (copi wedi'i atodi).

**7 CAIS RHIF 45/2017/0384/PF – YR HEN BARC DRIFT, RHODFA'R GORLLEWIN, Y RHYL** (Tudalennau 55 - 74)

Ystyried cais i ddymchwel y parc sgrialu a'r cytiau manwerthu ategol presennol ac adeiladu Parc Dŵr newydd ac Atyniad Hamdden gan gynnwys: Pwll hamdden dan do gyda chafnau dŵr, sleidiau, strwythur chwarae ac ardal hyder dŵr, ardaloedd newid, ardal chwarae i blant, ystafelloedd parti a gweithgareddau dringo, caffi / bar trwyddedig, pwll padlo awyr agored gydag offer chwarae, ardaloedd eistedd dan do/awyr agored, llety ategol ac ystafell beiriannau yn yr Hen Barc Drift, Rhodfa'r Gorllewin, Y Rhyl (copi wedi'i atodi).

**8 CAIS RHIF 45/2017/0507/PS - CARTREF PRESWYL DEWI SANT, 36 RHODFA'R DWYRAIN, Y RHYL** (Tudalennau 75 - 98)

Ystyried cais i amrywio amod rhif 1 o god caniatâd cynllunio rhif 45/2011/0572 a ganiateir dan apêl i ganiatáu mwy o amser i ddechrau'r datblygiad yng Nghartref Preswyl Dewi Sant, 36 Rhodfa'r Dwyrain, Y Rhyl (copi wedi'i atodi).

**9 CAIS RHIF 47/2017/0475/PF – TŶ WADHAM, RHUALLT, LLANELWY** (Tudalennau 99 - 110)

Ystyried cais i godi cartref ategol ar wahân a gwneud gwaith cysylltiedig yn Nhŷ Wadham, Rhuallt, Llanelwy (copi wedi'i atodi).

**10 GORCHYMYN CADW COED RHIF. 01/2017 YN YMWNEUD Â THIR GERLLAW GLASFRYN, GELLIFOR** (Tudalennau 111 - 144)

Ystyried adroddiad yn gofyn i aelodau gadarnhau Gorchymyn Cadw Coed Cyngor Sir Ddinbych Rhif 01/2017 yn ymwneud â thir gerllaw Glasfryn, Gellifor (copi atodedig).

**11 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR DDINBYCH: ADRODDIAD ADOLYGU DRAFFT A CHYTUNDEB CYFLAWNI DRAFFT – YMGYNGHORIAD ARFAETHEDIG** (Tudalennau 145 - 462)

Ystyried adroddiad yn ceisio ardystiad yr aelodau i Adroddiad Adolygu Drafft Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych ynghyd â Chytundeb Cyflawni, Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, Adroddiad Cwmpasu Arfarniad o Gynaliadwyedd a phapurau gwybodaeth gefndirol wedi'u diweddaru ar gyfer ymgynghoriad (copi atodedig).

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Joe Welch (Cadeirydd)

Alan James (Is-Gadeirydd)

Ellie Chard
Ann Davies
Meirick Davies
Peter Arnold Evans
Brian Jones
Huw Jones
Pat Jones
Tina Jones
Gwyneth Kensler

Christine Marston
Bob Murray
Merfyn Parry
Peter Scott
Thomas
Julian Thompson-Hill
Emrys Wynne
Mark Young

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned